

PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 12 GORFFENNAF 2023

Yn Cynghorydd Williams(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Ash-Edwards, Carter, Chowdhury, Henshaw, Hunt,
Stubbs a/ac Thomson

11 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Hinchey a'r Cynghorydd Goodway. Dywedodd y Cynghorydd Thomson y byddai angen iddi adael am 7.00pm.

12 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Henshaw a'r Cynghorydd Williams fuddiant personol gan fod aelodau o'u teulu'n gweithio i'r Cyngor.

Datganodd y Cynghorydd Hunt fuddiant personol fel Cadeirydd Llywodraethwyr yn Ysgol y Court.

13 : ADRODDIAD LLES BLYNYDDOL 2022/23

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau, yn unol â chyfrifoldeb y Pwyllgor dros graffu ar drefniadau cynllunio corfforaethol, asesu perfformiad ac adrodd y Cyngor, fod yr eitem hon yn rhoi cyfle iddynt graffu cyn penderfynu ar Adroddiad Lles Blynyddol hunanasesedig y Cyngor ar gyfer 2022/23. Hwn yw'r adroddiad sy'n crynhoi perfformiad diwedd blwyddyn y Cyngor ac yn edrych ymlaen at yr heriau sydd o'n blaenau.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd, y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, Gareth Newell, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau a Dylan Owen, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet.

Gwahoddwyd yr Arweinydd i wneud datganiad agoriadol, ac ar ôl hynny gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau am unrhyw gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau.

Cydnabu'r Aelodau y cynnydd a wnaed mewn gwahanol feysydd ond cydnabuon nhw hefyd yr heriau a amlygwyd yn yr Adroddiad Lles Blynyddol, fel cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion, cyfraddau ailgylchu, y galw am wasanaethau, costau rhentu, a'r hinsawdd economaidd. Sicrhawyd yr Aelodau gan weithdrefn hunanasesu gadarn y Cyngor yn seiliedig ar nifer o ffynonellau data i asesu perfformiad.

Croesawodd yr Aelodau grynodedig o berfformiad i gynyddu hygyrchedd ond awgrymon nhw y gallai ymddangos yn blaen heb y ddolen cronfa ddata fyw.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod cymorth wyneb yn wyneb ar gyfer gwella sgiliau digidol yn dal i fod ar gael mewn hybiau lleol ledled Caerdydd.

Cynhaliwyd trafodaeth a mynegodd yr Aelodau eu pryderon am y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes rhwng Gogledd a De Caerdydd. Cydnabu'r Pwyllgor ymdrechion y Cyngor i fynd i'r afael â'r mater hwn, yn enwedig o ran gordewdra sy'n gysylltiedig â thlodi, a chefnogodd y lobio dros fwy o bŵer i awdurdodau lleol o ran materion iechyd y cyhoedd.

Cydnabu'r Aelodau y rhybudd ynghylch trin dyledion a'i effaith bosibl ar gyllidebau cyfalaf a refeniw. Mynegodd yr Aelodau rywfaint o bryder am y risg a achosir gan gynyddu cyfraddau llog i wasanaethau hanfodol.

Rhodddwyd sicrwydd i'r Aelodau am ymrwymiad y Cyngor i adeiladu tai cymdeithasol ac ystyried Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer meysydd sy'n wynebu galw cynyddol. Amlinellodd y swyddogion hefyd bwysigrwydd rheolwyr yn ymgysylltu â staff a deall eu heriau, yn ogystal â monitro cyfraddau absenoldeb salwch.

Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'n ddiddorol gweld mwy o wybodaeth am y rhesymau dros y gostyngiad mewn presenoldeb mewn lleoliadau cyngor i benderfynu a yw'n gysylltiedig â'r dychweliad cyflym i'r arfer wedi COVID neu'n benodol i Gaerdydd.

Nododd yr Aelodau gynnydd Caerdydd o ran cyflwyno parthau 20 mya a lonydd beicio, gan arwain at welliant i'r tagfeydd yn y ddinas dros y pum mlynedd diwethaf.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

14 : CYLLIDEB 2024/25, CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG AC ADRODDIAD ALLDRO 2022/23

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn rhoi cyfle iddynt ystyried dull y Cyngor o ddatblygu cynigion cyllideb 2024/25, a chael yn benodol ddealltwriaeth lawnach o'r gwaith gwydnwch ariannol sydd ar y gweill i fynd i'r afael â'r heriau a achosir gan chwyddiant, yr argyfwng ynni, cyfraddau llog, y farchnad lafur a thwf economaidd gwan a allai gwtogi ar gyllid y sector cyhoeddus.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau,

Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau ac Ian Allwood, Pennaeth Cyllid ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad agoriadol, ac ar ôl hynny gofynnwyd i'r Aelodau am eu cwestiynau, eu sylwadau a'u harsylwadau.

Mynegodd yr Aelodau bryder sylweddol am effaith bosibl chwyddiant a dyfarniadau cyflog uwch na'r disgwyl ar waith cynllunio ariannol y Cyngor. Nodon nhw y gallai'r dybiaeth o chwyddiant 2% a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad fod yn rhy optimistaidd gan gynrychioli maes risg allweddol i'r Cyngor. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cyngor yn ystyried rhagolygon a chyngor allanol, gan gynnwys dadansoddiad sensitifrwydd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a chynlluniau i ddefnyddio gwybodaeth benodol am chwyddiant, dyfarniadau cyflog, a thwf economaidd wrth iddi ddod ar gael cyn gosod y gyllideb derfynol ym mis Mawrth 2024, ond roedd y Pwyllgor yn parhau i bryderu ynghylch sut y bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau a ddaw yn sgil chwyddiant a dyfarniadau cyflog uwch.

Trafododd yr Aelodau y rhagfynegiad y byddai costau ariannu cyfalaf yn gostwng dros gyfnod o bedair blynedd, ac egluron nhw mai cyfradd y cynnydd sy'n gostwng mewn gwirionedd, nid cyfanswm cost ariannu cyfalaf. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y gwaith modelu yn seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf bresennol, ac os ychwanegir prosiectau cyfalaf newydd at y rhaglen, bydd y costau'n cynyddu yn unol â hynny.

Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am sut mae prosiectau cyfalaf yn cael eu hail-werthuso mewn achosion lle mae llithriad ar y prosiect. Yn benodol, gofynnnon nhw am fanylion y metrigau a ddefnyddir i ail-werthuso prosiectau sy'n profi oedi a chostau cynyddol.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch sut mae'r Cyngor yn cymharu ei hun â chynghorau eraill y DU o faint tebyg i Gaerdydd, yn enwedig o ran dyrannu cyllidebau ac arbedion ar wasanaethau anstatudol. Nododd yr Aelodau fod 70% o gyllideb gyffredinol y Cyngor yn cefnogi Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, tra bod y 30% sy'n weddill yn cefnogi holl wasanaethau eraill y Cyngor. Roedd yr Aelodau'n awyddus i ddeall sut mae cynghorau eraill sydd â rhaniad cyllidebol tebyg yn llwyddo i arbed arian ar wasanaethau anstatudol. Dywedodd y swyddogion fod y Cyngor yn rhyngweithio ac yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd â chydweithwyr cyllid ledled Cymru trwy amrywiol fforymau. Mae'r fforymau hyn yn cynnig cyfleoedd i gael trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol, lle rhennir arferion gorau a meincnodi ymhlith awdurdodau lleol.

Cydnabu'r Aelodau, pan gytunwyd ar gyllideb 2023/24 ym mis Mawrth 2023, fod Mekanwaith Gwydnwch Ariannol (MGA) y Cyngor wedi'i ostwng o £3.8 miliwn yn y flwyddyn flaenorol (2022/23) i £2 filiwn. Cafodd y gostyngiad hwn ei wneud i gynorthwyo gydag effaith y costau ynni cynyddol bryd hynny. Fodd bynnag, nodwyd mai'r bwriad oedd adfer y MGA i £3.8 miliwn yn raddol pe bai prisiau ynni yn gostwng, a thrwy hynny roi hwb i'r MGA.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed y bydd effaith cyfraniad incwm prosiectau ffynhonnell wres a fferm solar Ffordd Lamby yn cael ei hystyried wrth gynllunio'r gyllideb. Mae hyn yn awgrymu, os yw'r incwm a gynhyrchir o'r prosiectau hyn yn ffafriol ac yn helpu i wrthbwysu costau ynni, y gall y Cyngor adfer y MGA yn raddol i'w lefel flaenorol o £3.8 miliwn.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

15 : CYFLAWNI DARPARIAETH ASIANTAETH A CHAERDYDD AR WAITH FODERN

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai diben yr eitem hon oedd ystyried cynnig i ailgaffael darparwr Gwerthwr-Niwtral i gyflenwi staff asiantaeth arbenigol i'r Cyngor. Yn ogystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am asiantaeth recriwtio fewnol y Cyngor, Caerdydd ar Waith. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cyflwyno cyfrifoldeb dros graffu comisiynu a chaffael, ac am ddefnydd y Cyngor o adnoddau dynol. Y cynnig yw ailgaffael darparwr Gwerthwr-Niwtral i gyflenwi staff asiantaeth arbenigol i'r Cyngor a gallwn brofi pa mor dda y mae'r dull gweithredu yn cyd-fynd â dull caffael cymdeithasol-gyfrifol y Cyngor.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury, yr Aelod Cabinet dros Drechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd, Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau a Hailey Beynon, Rheolwr Gweithredol Cyngor ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddwyd yr Aelodau Cabinet i wneud datganiadau agoriadol, ac yn dilyn hynny rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau.

]

Sicrhawyd yr Aelodau gan y diweddariadau a roddwyd ar Caerdydd ar Waith a'r Gwasanaeth i Mewn i Waith, gan gydnabod llwyddiant y rhaglen o ran cynnig cyfleoedd cyflogaeth i dros 80,000 o bobl. Gofynnodd yr Aelodau am friff data ar y mathau o gyflogaeth a gynigir, canran y rhai a benodir gan Caerdydd ar Waith sy'n cael eu gwneud yn barhaol, y gwerth ychwanegol drwy penodiadau parhaol, ac adborth gan unigolion ac astudiaethau achos sy'n tynnu sylw at yrfaeodd llwyddiannus o fewn y Cyngor.

Cydnabu'r Aelodau bwysigrwydd Caerdydd ar Waith wrth fynd i'r afael â heriau recriwtio staff a chefnogi meysydd â phrinder staff. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed am y prosesau monitro ac adolygu sydd ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn ehangu'n effeithiol a phwysleision nhw werth adborth gan reolwyr ac ymgeiswyr wrth wella gwasanaethau. Cefnogodd yr Aelodau fentrau fel y rhaglen "Paratoi Caerdydd at Waith" a'r fenter "Caerdydd ar Waith i Chi," yn ogystal â'r Polisi Gwaith Teg sy'n cynnig llwybr at gyflogaeth barhaol i weithwyr dros dro.

Roedd gan yr Aelodau ffydd yn y system gaffael gadarn a'r cynnig darparwr gwerthwr-niwtral. Nododd yr Aelodau fod cwestiynau ynghylch cynnwys awdurdodau lleol eraill yn y dyfodol o bosibl, fodd bynnag, deallon nhw nad oedd yn rhan o'r cynnig presennol gan groesawu'r sicrwydd y byddai unrhyw ddatblygiadau pellach yn cael eu cyflwyno'n ofalus i'r pwyllgor craffu i'w hystyried. Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r ymatebion ynghylch gwerthoedd cymdeithasol, cynaliadwyedd, a'r cyflog byw gwirioneddol mewn prosesau caffael.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn rhoi cyfle i graffu cyn penderfynu ar Gynllun Eiddo Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023-24. Y Cynllun hwn ar gyfer 2023-24 yw'r cynllun gweithredu a fydd yn eistedd y tu ôl i Strategaeth Eiddo Corfforaethol gymeradwy y Cyngor, a bob blwyddyn mae targedau'r Cynllun yn cefnogi'r targedau a nodir yn y Strategaeth. Mae gan y Pwyllgor gyfle i brofi'r uchelgais a'r targedau a nodir yng Nghynllun Eiddo Blynyddol 2023-24, i brofi cryfder y cysylltiadau rhwng y Strategaeth a'r Cynllun, a'r cyfraniad y bydd y Cynllun yn ei wneud i Strategaeth Eiddo Corfforaethol 5 mlynedd 2021-26.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Donna Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau'r Sir, Giles Parker, Pennaeth Eiddo a Matt Seymour, Rheolwr Asedau, ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Mynegodd yr Aelodau bryderon am natur realistig y targedau derbyniadau cyfalaf ar gyfer 2023/24, gan ystyried y lefelau chwyddiant cyfredol a'r economi gyffredinol. Nodon nhw nad oedd y targed gwreiddiol o £40 miliwn a osodwyd yn 2018 wedi'i fwrw erbyn mis Ebrill 2023, yn bennaf oherwydd effaith COVID a diffyg gwireddu cynlluniau'n gysylltiedig â'r Cynllun Trefniadaeth Ysgol. Fodd bynnag, roeddent yn falch o glywed bod y swyddogion yn hyderus y caiff y targed newydd o £25 miliwn a osodwyd ym mis Ebrill 2023 ei fwrw, gan ystyried ei fod yn darged cadwrol.

Gofynnwyd am eglurhad ar broses dethol a gwerthu eiddo. Dywedwyd wrth yr Aelodau, pan ystyrir nad oes angen eiddo o ran angen gweithredol, fod holl wasanaethau'r Cyngor a phartneriaid allanol yn cael gwybod amdano. Mae'r Bwrdd Rheoli Asedau yn penderfynu a ddylid gwerthu neu brydlesu eiddo unigol, gan ofyn am gyngor gan asiantaethau arbenigol. Mae eiddo a nodwyd i'w gwaredu yn y Cynllun Eiddo Blynyddol fel y cytunwyd, gydag ymgynghoriad ag aelodau ward ar unrhyw ychwanegiadau. Mae'r Cyngor yn derbyn ymholiadau gan ddarpar brynwyr, sy'n cael eu gwerthuso ar lefel swyddog dirprwyedig ac yn destun prisiad annibynnol. Os ystyrir bod y tir/eiddo o ddiddordeb i sawl parti, byddai'n cael ei gynnig i'r farchnad ehangach.

Sicrhawyd y Pwyllgor gan y systemau cadarn a oedd ar waith i ragweld materion cynnal a chadw drwy arolygon cyflwr, gan sicrhau cynllun 5 mlynedd ar gyfer adnewyddu. Mae gwaith ail-flaenoriaethu rheolaidd yn digwydd ar gyfer eiddo sydd ag ôl-groniad o waith atgyweirio.

Nododd yr Aelodau fod polisi'r Cyngor ar Coed Caerdydd wedi dylanwadu ar y gallu i werthu tir a ystyriwyd yn wreiddiol yn addas ar gyfer y sector preifat. Mae tir yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer plannu coed i wrthbwysu allyriadau carbon a chyfrannu at dargedau carbon. Rhoddwyd enghraifft o ddarn o dir yng Nghefn Coed yng Ngogledd Caerdydd a gynigiwyd yn ddiweddar i Coed Caerdydd.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

17 : EITEMAU BRYYS (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

18 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

20 Medi 2023 am 4.30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 7.35 pm